# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

## Ymgynghoriad ar y Cod Ymddygiad a Gweithdrefnau Cysylltiedig

## Rhagfyr 2020/Ionawr 2021

Ni yw’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Rydym wedi bod yn ystyried y *Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Senedd (y Cod)* i sicrhau ei fod yn dal i fod yn berthnasol yn ein senedd esblygol. Rydym yn bwriadu cynnig unrhyw newidiadau a allai fod yn angenrheidiol i'r Cod yn barod ar gyfer y Chweched Senedd (Mai 2021).

Dogfen sy’n nodi’r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau o’r Senedd yw’r Cod Ymddygiad. Mae ganddo awdurdod statudol o dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd y Comisiynydd Safonau annibynnol. Gall Aelodau y cafwyd nad ydynt wedi cadw at y Cod fod yn destun adroddiad i’r Comisiynydd Safonau annibynnol. Bydd y Comisiynydd yn ystyried cwynion o’r fath, a bydd yn cyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor Safonau Ymddygiad os ystyrir bod y Cod wedi cael ei dorri.

Cytunir ar y Cod gan y Senedd yn dilyn cynigion gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Y bwriad yw y bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd y pumed Senedd yn barod ar gyfer y Chweched Senedd.

Rydym wedi cynnal gwaith ymchwil ar draws llywodraeth leol, senedd y DU a seneddau rhyngwladol, i ddibenion, cwmpas, gorfodadwyedd a gofynion a nodir mewn gwahanol godau ymddygiad ledled y byd. Rydym hefyd wedi clywed barn nifer o randdeiliaid ar y Cod presennol.

Ar sail ein gwaith hyd yma, rydym wedi drafftio Cod diwygiedig (atodiad A) ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ehangach. **Byddem yn croesawu eich barn ar y Cod drafft atodedig.**

Wrth ail-ddrafftio'r Cod rydym wedi ceisio:

- darparu mwy o eglurder o ran y safonau a ddisgwylir gan yr Aelodau;
- alinio'n well â'r Polisi Urddas a Pharch a fabwysiadwyd gan y Senedd ym mis Mai 2018.

Er gwybodaeth, mae'r Cod presennol ar gyfer Aelodau'r Senedd ar gael yma. Gellir gweld cymhariaeth o'r cod presennol a'r cod newydd arfaethedig yn atodiad B.

Yn benodol, byddem yn croesawu sylwadau ynghylch y meysydd canlynol:

## 1. Strwythur y Cod

Yn rhyngwladol, mae codau ymddygiad yn nodweddiadol[1] wedi'u strwythuro mewn un o dair ffordd:

- set o reolau (sy'n darparu eglurder mewn sefyllfaoedd a nodwyd ymlaen llaw);
- set o egwyddorion allweddol (ar y sail na fyddai set o reolau yn addas ar gyfer pob amgylchiad o reidrwydd); neu
- gyfuniad o egwyddorion a rheolau allweddol (ar y sail bod hynny'n darparu rheolau eglur, yn ogystal ag egwyddorion i'w rhoi ar waith mewn amgylchiadau annisgwyl).

Gan gydnabod bod manteision ac anfanteision penodol i bob un o'r tri dull, rydym wedi ceisio ailstrwythuro Cod y Senedd fel cyfuniad o egwyddorion trosfwaol, sy'n nodi'r dyhead o sut y dylai Aelodau ymddwyn, ynghyd â set o reolau clir iawn i gyd-fynd â'r rhain, lle byddai modd dwyn Aelodau i gyfrif.

**Cwestiwn 1: Byddem yn croesawu eich barn ar ein dull o strwythuro'r Cod, fel:**

- **set o egwyddorion trosfwaol sy'n disgrifio sut y dylai Aelodau ymddwyn; a**
- **set o reolau clir y gellir dwyn Aelodau i gyfrif yn eu herbyn.**

[1] Gellir nodi mai dim ond yn ystod y degawdau diwethaf y mae codau ymddygiad wedi dod yn gymharol gyffredin mewn seneddau ledled y byd, ac mae yna nifer o seneddau nad oes ganddyn nhw god ymddygiad ar hyn o bryd.

## 2. Cwmpas y Cod

Mae Cod y Senedd fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn berthnasol i Aelodau drwy'r amser (h.y. nid yn unig pan fyddant yn gweithredu fel Aelodau neu'n cael mynediad at adnoddau Comisiwn y Senedd, ond hefyd yn eu bywydau preifat, teuluol a chyhoeddus ehangach).

Rydym wedi ystyried arferion amrywiol mewn seneddau eraill, sydd yn:

- eithrio bywydau preifat Aelodau rhag cwmpas eu codau ymddygiad;
- eithrio bywydau preifat Aelodau o'r cwmpas, heblaw pan fydd bywyd preifat yn effeithio ar enw da'r senedd;
- cynnwys bywydau preifat Aelodau o fewn cwmpas y cod.

Unwaith eto, rydym yn cydnabod bod gwrthwynebwyr a beirniaid o'r tri dull. Mae rhai yn dadlau na ddylai sgandal yn y cyfryngau sy'n ymwneud â bywydau preifat fod yn destun rheoleiddio, eraill yn credu y gall bywydau preifat Aelodau effeithio ar enw da senedd ac ymddiriedaeth yn eu cynrychiolwyr etholedig a'u bod yn gwneud hynny, ac felly mae'n fater o ddiddordeb cyhoeddus.

Yn ein Cod wedi'i ailddrafftio, rydym wedi nodi'n benodol bod y Cod yn berthnasol i Aelodau sy'n dal swydd gyhoeddus fel Aelod o'r Senedd drwy'r amser, gan gynnwys ym mywydau personol a phreifat yr Aelodau.

| |
|---|
| **Cwestiwn 2: Byddai'r Pwyllgor yn croesawu barn ar gymhwyso'r Cod i fywydau preifat Aelodau. Ble dylid sicrhau'r cydbwysedd rhwng hawl yr Aelod i fywyd preifat a theuluol a budd y cyhoedd er mwyn cynnal safonau uchel o ymddygiad ar ran y rhai sy'n dal swydd gyhoeddus?** |

## 3. Egwyddorion yn y Cod

Mae Cod presennol y Senedd yn cynnwys y 7 egwyddor "Nolan" sy'n amlinellu'r safonau allweddol a ddisgwylir gan y rhai mewn bywyd cyhoeddus, ac rydym yn nodi eu bod yn destun adolygiad gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

Yn ein Cod diwygiedig rydym wedi ceisio teilwra'r geiriad sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion hyn i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn berthnasol i rolau Aelodau'r Senedd mewn amgylchedd seneddol modern. Wrth wneud hynny, rydym wedi nodi barn y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, sef: "Nid oedd hi'n fwriad y gallai'r Saith Egwyddor gael eu trin fel pe baent yn god hunangynhwysol, ond yn hytrach, y dylid defnyddio'r egwyddorion i gefnogi canllaw ymddygiad ymarferol sy'n berthnasol yn lleol ac wedi'i ddrafftio'n dda." Rydym wedi ceisio adlewyrchu hyn wrth ailddrafftio'r Cod.

**Cwestiwn 3: Byddem yn croesawu eich barn ar y dull a ddefnyddiwyd gennym i deilwra'r geiriad sy'n gysylltiedig â saith egwyddor Nolan, gyda'r nod o'u gwneud yn gymwys ac yn berthnasol i rolau Aelodau'r Senedd. A fyddech yn awgrymu unrhyw newidiadau pellach i'r geiriad hwn?**

Er bod egwyddorion "Nolan" wedi sefyll prawf amser yn dda mewn sawl ffordd, gellir gweld erbyn hyn eu bod yn adlewyrchu'r agweddau ar ymddygiad da mewn bywyd cyhoeddus a oedd yn peri'r pryder pennaf pan sefydlwyd Pwyllgor Nolan. Er bod y rhain yn dal i fod yn berthnasol ac yn briodol, dros y blynyddoedd diwethaf, mae digwyddiadau megis yr adroddiad ymchwil annibynnol ar Fwlio ac Aflonyddu staff Tŷ'r Cyffredin [adroddiad y Fonesig Laura Cox] a arweiniodd at fabwysiadu Polisi Urddas a Pharch y Senedd a symudiadau ehangach o fewn cymdeithas megis #Metoo a Black Lives Matter, i'w gweld yn dangos y dylid ategu at yr egwyddorion gwreiddiol gydag egwyddor bellach sy'n ymdrin yn benodol â safonau ymddygiad mewn perthynas â thrin pawb yn gyfartal a gyda pharch. Yn unol â hynny, rydym yn ceisio barn ar egwyddor ychwanegol o "Barch", fel a ganlyn:

*Parch: Rhaid i aelodau ymddwyn mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal, yn parchu urddas pobl eraill bob amser, a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu'n ddiangen.*

Rydym hefyd wedi cynnwys elfennau allweddol o bolisi urddas a pharch y Senedd yn y Cod diwygiedig fel rheolau clir[2]. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn yn ddiangen, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu.
- Rhaid i aelodau weithredu o fewn y gyfraith droseddol.
- Rhaid i aelodau beidio ag ymosod yn bersonol ar unrhyw un - mewn unrhyw ohebiaeth (boed ar lafar, yn ysgrifenedig neu unrhyw fath o gyfrwng electronig neu gyfrwng arall,) - mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan roi sylw i'r cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo.

| |
|---|
| **Cwestiwn 4: Byddem yn croesawu eich barn ar ein hegwyddor ychwanegol arfaethedig o barch a'r rheolau cysylltiedig. Ydych chi'n credu ei fod yn ddigon clir o ran ei ddisgwyliadau ar sut y bydd Aelodau'n ymddwyn?** |

[2] Mae'r diffiniadau o dermau allweddol ee bwlio y mae'r Pwyllgor wedi'i fabwysiadu yn gyson â'r diffiniadau yn y Polisi Urddas a Pharch presennol

## 4. Rheolau yn y Cod

Mae'r Cod diwygiedig yn cynnwys set o reolau y gellir eu gorfodi.

Ni fwriedir i'r rheolau gael eu defnyddio i farnu sut mae Aelodau'n cyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig neu fel rhwystr rhag mynegi barn wleidyddol. Yn hytrach, bwriad y rheolau hyn yw galluogi Aelodau i ddeall yr hyn sy'n ddisgwyliedig ganddynt wrth gynnal safonau uchel o ymddygiad personol a'u galluogi i gael eu dwyn i gyfrif pan fydd eu hymddygiad yn methu â chyrraedd y safonau hynny.

Yn naturiol, nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o reolau gan nad oes modd rhagweld pob sefyllfa.  Fodd bynnag, mae'n ceisio mynd i'r afael â meysydd ymddygiad allweddol, wedi'u cefnogi gan yr egwyddorion trosfwaol y gellir eu defnyddio lle mae rheol yn gofyn am ddehongliad neu nad yw fel arall yn darparu ar gyfer sefyllfa benodol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Pwyllgor wedi nodi'n glir yn y rheol gyntaf, bod angen i'r Aelodau hefyd gynnal egwyddorion y Cod.

**Cwestiwn 5: Byddem yn croesawu eich barn ar y rheolau a nodir yn y Cod wedi'i ddiweddaru:**

- **a ydyn nhw'n ddigon clir wrth nodi sut mae'n rhaid i Aelodau ymddwyn?**
- **a oes unrhyw reolau neu agweddau ar y rheolau yn y Cod wedi'i ddiweddaru y credwch na ddylai fod yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â nhw?**
- **a ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â nhw?**

## 5. Canllawiau i'r Cod

Rydym yn bwriadu y bydd canllaw yn cyd-fynd â'r Cod wedi'i ddiweddaru, gyda'r nod o wneud y Cod yn glir ac yn hygyrch i'r Aelodau a'r Cyhoedd. Bydd y canllaw hwn hefyd yn cwmpasu'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd.

Rydym yn rhagweld y bydd canllawiau o'r fath yn:

- nodi mai nodwedd allweddol wrth gymhwyso a gorfodi'r Cod yw bod yn rhaid iddo hwyluso hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae Aelodau'n cyflawni eu cyfrifoldebau;
- nodi enghreifftiau ymarferol o'r hyn a fyddai'n gyfystyr â thorri'r Cod, gan gyfeirio at yr egwyddorion a'r rheolau;
- nodi sut y bydd honiadau o ddiffyg cydymffurfio â'r Cod yn dilyn y weithdrefn ar gyfer ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd;
- darparu gwybodaeth ar sut y gellir cysylltu â'r Comisiynydd Safonau i gofrestru cwynion.

**Cwestiwn 6: Mae'r canllawiau ar hyn o bryd wedi'u cynnwys yn y Cod a'r weithdrefn, ac rydym yn awgrymu y dylent fod yn annibynnol. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a oes meysydd penodol o'r Cod, neu'r broses ar gyfer gwneud cwynion yn gyffredinol, yr hoffech weld arweiniad arnynt.**

**Cwestiwn 7: Byddem yn croesawu eich barn ar ein dull arfaethedig o nodi enghreifftiau ymarferol o dorri Cod mewn canllawiau, ac unrhyw sylwadau eraill a allai fod gennych ar ddatblygu canllawiau.**

## Y weithdrefn ar gyfer delio â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd.

Mae ein hadolygiad o'r Cod hefyd yn rhoi cyfle inni newid a diweddaru'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd (y weithdrefn).

**Cwestiwn 8: Byddem yn croesawu eich barn ynghylch unrhyw newidiadau yr hoffech eu gweld yn y weithdrefn.**

Yn benodol, byddem yn croesawu sylwadau ynghylch:

### 1. Sancsiynau

Er mwyn i God Ymddygiad fod yn effeithiol, mae angen ystod o sancsiynau clir i gyd-fynd â'r cod er mwyn gallu mynd i'r afael â chamymddwyn. Fel rhan o'n hymchwil i wahanol gymwysiadau Codau Ymddygiad ledled y byd, bûm yn archwilio'r sancsiynau a ddefnyddir gan seneddau wrth fynd i'r afael â chamymddwyn.

Cyflwynwyd ystod ehangach o sancsiynau i'w defnyddio yn y Senedd yn 2013 yn dilyn adroddiad gan ein Pwyllgor blaenorol. Y sancsiynau presennol sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â chamymddwyn yw:

- Ceryddu Aelod (sy'n gweithredu fel cofnod o siom y Senedd yn ymddygiad yr Aelod);
- Gwahardd o drafodion y Senedd[3] naill ai'n gyffredinol neu'n benodol (er enghraifft, cyfarfodydd penodol y Senedd a'i phwyllgorau), am gyfnod penodol o amser[4];
- Tynnu rhai hawliau a breintiau aelodaeth y Senedd yn ôl (gan gynnwys: yr hawl mynediad; gweithgareddau y gallai fod gan aelod hawl i'w mynychu fel rheol; dileu breintiau cynrychioladol, seremonïol a chysylltiedig y gallai aelod eu mwynhau fel aelod fel rheol) dros gyfnod penodol o amser; neu

[3] Caiff "trafodion y Cynulliad" eu diffinio yn adran 1(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel "any proceedings of the Assembly, committees of the assembly or sub-committees of such committees."

[4] Mewn achos o argymhelliad i wahardd, yn unol a'r Rheolau Sefydlog, bydd hyn yn arwain yn awtomatig at dynnu cyflog yr Aelod yn ôl am gyfnod y gwaharddiad, ond ni fydd yn arwain at dynnu unrhyw lwfansau eraill yn ôl a ddarperir o dan Benderfyniad y Cynulliad ar Dâl a Chyflogau Aelodau.

- pan ystyrir bod hynny’n briodol, gellir defnyddio unrhyw gyfuniad o’r sancsiynau uchod.

Yn ystod y bumed Senedd defnyddiwyd y sancsiynau hyn ar sawl achlysur.

Er bod ein sancsiynau'n gymharol debyg i'r rhai mewn awdurdodaethau eraill yn y DU, nid yw ein sancsiynau'n cynnwys:

- ei gwneud yn ofynnol i Aelod ymddiheuro;
- cosbau ariannol fel ad-dalu symiau a hawliwyd yn anghywir (mae hyn yn cwmpasu cosbau heblaw tynnu cyflog aelod yn ôl am gyfnod gwahardd);
- y grym i argymell bod aelod yn cael ei ddiarddel neu ei wneud yn destun deiseb adalw.

Rhagwelir y byddai angen newidiadau deddfwriaethol er mwyn mabwysiadu'r ddwy gosb olaf. At hynny, gall system etholiadol Cymru gyda chynrychiolwyr rhanbarthol wneud rhywbeth tebyg i ddeiseb adalw yn fwy cymhleth.

| |
|---|
| **Cwestiwn 9: Byddem yn croesawu eich barn ar y sancsiynau sydd ar gael i'r Pwyllgor ac unrhyw newidiadau y credwch y gallai fod angen eu gwneud iddynt.** |

## 2. Amserlen ar gyfer Cwynion

Mae'r weithdrefn ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i gwynion gael eu gwneud cyn pen 12 mis ar ôl i achwynydd fod yn rhesymol ymwybodol o'r camymddwyn honedig.

Rydym yn deall ac yn derbyn nad yw unigolion bob amser yn teimlo y gallant gyflwyno cwyn ar yr adeg y digwyddodd yr ymddygiad am nifer o resymau.

| |
|---|
| **Cwestiwn 10: Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a ddylid cael amserlen ar gyfer cwynion, ac os na, a ddylai fod unrhyw amodau ar dderbynioldeb cwynion dros 12 mis oed.** |

## 3. Cyhoeddi adroddiad y Comisiynydd

Ar hyn o bryd mae'r weithdrefn yn gofyn am gyhoeddi adroddiad y Comisiynydd yn llawn, sy'n nodi canfyddiadau ymchwiliad y Comisiynydd a'r dystiolaeth y dibynnir arni. Rydym yn pryderu y gallai rhyddhau'r wybodaeth hon ei gwneud hi'n anos i achwynwyr rannu gwybodaeth sensitif. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn archwilio'r posibilrwydd o ryddhau crynodeb o adroddiad y Comisiynydd lle bo angen oherwydd gwybodaeth sensitif.

| |
|---|
| **Cwestiwn 11: Byddem yn croesawu eich barn ar sut y dylai adroddiadau'r Comisiynydd gyfeirio at wybodaeth sensitif y dibynnir arni ar gyfer ymchwiliadau.** |

## 4. Y broses apelio

Unwaith y canfyddir bod cwyn yn dderbyniadwy, mae gweithdrefn gwynion y Senedd yn broses tri cham sy'n cynnwys:

- ymchwiliad gan y Comisiynydd annibynnol;
- ystyriaeth o ganfyddiadau'r Comisiynydd gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad trawsbleidiol; ac
- os canfuwyd bod y Cod wedi cael ei dorri yn ystod y camau uchod, penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r Senedd gyfan wedi torri'r Cod.

Yn ogystal, ar hyn o bryd gall Aelodau apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, i berson annibynnol â chymhwyster cyfreithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth newydd sylweddol neu afreoleidd-dra gweithdrefnol. Nid yw'r person a benodir yn ystyried rhinweddau'r achos, ond bydd yn cyfeirio'r adroddiad yn ôl at y Pwyllgor os mae'r apêl yn llwyddiannus.

Cyflwynwyd y broses apelio ychwanegol hon yn 2004, cyn sefydlu swyddfa annibynnol y Comisiynwyr Safonau.[5] Roedd y broses apelio gychwynnol yn

[5] Roedd hyn yn ganlyniad i argymhelliad o adroddiad Woodhouse ar y Safonau Ymddygiad yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Adroddiad Pwyllgor Safonau Ymddygiad Cynulliad

seiliedig ar banel o Aelodau'r Senedd yn adolygu penderfyniad y Pwyllgor (a etholwyd ar gyfer unrhyw apêl a gychwynnwyd). Newidiwyd y broses hon i broses lle'r oedd apeliadau'n cael eu clywed gan berson annibynnol â chymhwyster cyfreithiol a benodwyd gan Farnwr Llywyddol Cylchdaith Cymru, pan adolygwyd y weithdrefn ar ôl pasio Mesur y Comisiynydd Safonau 2010. Yn unol â hynny, mae'r weithdrefn bresennol yn caniatáu ar gyfer tri cham adolygu ar wahân, sef gan y Pwyllgor, gan y Senedd a chan yr unigolyn annibynnol.

Mae defnyddio unigolyn annibynnol â chymhwyster cyfreithiol[6] yn golygu cost sylweddol ychwanegol yn y broses sy'n amrywio gan ddibynnu ar gymhlethdod yr achos a'r person a benodir.

Wrth gynnal adolygiad cynhwysfawr o godau eraill, nodwyd nad oes proses apelio ychwanegol wedi'i hymgorffori yng ngweithdrefnau cwynion awdurdodaethau eraill y DU. Mae Tŷ'r Cyffredin wedi cyflwyno proses apelio sy'n debycach i gam y Pwyllgor o fewn system y Senedd - gan ei fod yn apêl i is-bwyllgor o'r Pwyllgor Safonau ar benderfyniad y Comisiynydd ac yn ymwneud â chwynion a wneir o dan y cynllun Cwynion ac Achwyniadau Annibynnol yn unig.[7]

| |
|---|
| **Cwestiwn 12: Byddem yn croesawu barn ynghylch a ddylai'r broses apelio ychwanegol i'r unigolyn annibynnol - y manylir arni uchod - barhau i fod yn rhan o'r weithdrefn.** |

Cenedlaethol Cymru, Adolygiad o drefn Safonau Ymddygiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Yr Athro Diana Woodhouse, Prifysgol Oxford Brookes, Hydref 2002

[6] Hyd yn hyn, mae'r rôl wedi'i llenwi gan aelodau o'r farnwriaeth sydd wedi ymddeol sy'n cael eu talu ar gyfradd ddyddiol sy'n gysylltiedig ag apwyntiadau barnwrol sy'n derbyn ffî.

[7] Tŷ'r Cyffredin, **Independent Complaints and Grievance Scheme, Annex: Guidance to appellants, Canllawiau dros dro a baratowyd yng Ngwanwyn 2019**
**https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmstandards/1976/197604.htm**

Atodiad B – Cod Ymddygiad wedi'i Ailddrafftio

# SENEDD CYMRU

## Cod Ymddygiad ar Safonau Ymddygiad Aelodau'r Senedd

**Rhan 1 - Cyflwyniad a Statws y Cod**

1. Mae'r Cod Ymddygiad hwn (y “Cod”) yn cynnwys:

   Rhan 1 Cyflwyniad a statws y Cod

   Rhan 2 Dehongli ac Egwyddorion Trosfwaol

   Rhan 3 Safonau Ymddygiad Personol yr Aelodau

   Rhan 4 Dyletswyddau Aelodau mewn perthynas â Chwynion ac Ymchwiliadau yn ymwneud â Safonau

2. Mae'r Cod yn nodi’r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau'r Senedd, ac mae'n God sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Senedd at ddibenion Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Mabwysiadwyd y Cod trwy benderfyniad y Senedd, dyddiedig [dyddiad].

3. Mae'r Senedd a chadeiryddion pwyllgorau yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau yn ystod sesiynau llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau trwy ddefnyddio Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â chynnal trefn yn ystod achos.

4. Gall Comisiwn y Senedd gyhoeddi canllawiau o bryd i'w gilydd i gynorthwyo Aelodau a'u staff i gydymffurfio â'r Cod, a gall y Comisiynydd Safonau roi sylw i ganllawiau o'r fath wrth ystyried unrhyw gŵyn o fethiant i gydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

5. Mae'r Cod yn berthnasol i Aelodau sy'n dal swydd gyhoeddus Aelod o'r Senedd bob amser, gan gynnwys bywydau personol a phreifat yr Aelodau.

**Rhan 2 - Dehongli ac Egwyddorion trosfwaol**

6. Rhaid i aelodau ymddwyn yn unol â'r egwyddorion canlynol (y cyfeirir atynt yn y Cod fel “yr Egwyddorion Trosfwaol”):

   **Anhunanoldeb**

   Dylai aelodau wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa’n ariannol neu’n faterol.

   **Uniondeb**

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol.

**Gwrthrychedd**

Wrth gyflawni eu busnes dylai'r Aelodau wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

**Atebolrwydd**

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.

**Bod yn agored**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth onid oes angen am hynny o ganlyniad i ofynion statudol, Rheolau Sefydlog y Senedd a rheolau sy'n rhwymo Aelodau'r Senedd a'u staff, neu pan fo budd y cyhoedd ehangach yn amlwg yn mynnu hynny.

**Gonestrwydd**

Mae'n rhaid i Aelodau fod yn onest, rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.

**Parch**

Mae'n rhaid i Aelodau bob amser ymddwyn mewn modd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal, yn parchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu'n ddiangen.

**Arweinyddiaeth**

Mae'n rhaid i aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth a dangos esiampl, a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.

7. Mae'r safonau ymddygiad a nodir yn Rhannau 3 a 4 o'r Cod hwn i'w dehongli yn unol â'r Egwyddorion Trosfwaol ac mae torri'r Cod yn golygu torri unrhyw un o'r safonau a nodir yn rhannau 3 a 4 o'r Cod hwn.

8. Yn y Cod hwn:

(1) Ystyr “bwlio” yw ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus neu sarhaus; neu gam-drin neu gamddefnyddio pŵer mewn ffordd sy'n bwriadu tanseilio, bychanu, beirniadu'n annheg neu anafu rhywun;

(2) Mae “gwahaniaethu” yn cynnwys ymddygiad sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, barn wleidyddol, dewis iaith, statws teuluol ac a oes gan berson ddibynyddion ai peidio;

(3) Mae “aflonyddu” yn golygu ymddygiad digroeso gyda’r diben neu effaith o amharchu urddas unigolyn neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, israddol, bychanol neu annymunol ar gyfer unigolyn, ac mae’n cynnwys aflonyddu rhywiol.

(4) Mae “ymddygiad digroeso” yn golygu ymddygiad nad yw’n cael ei annog na’i gyfnewid gan y sawl sy’n destun i’r ymddygiad, p’un a yw’r ymddygiad wedi’i fwriadu i beri tramgwydd ai peidio, a ph’un a yw’n digwydd dro ar ôl tro neu unwaith yn unig; ac

(5) Mae “y Mesur” yn golygu Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 *(mccc 4).*

**Rhan 3 - Safonau Ymddygiad Personol Aelodau**

9. Mae’n rhaid i Aelodau:

(1) Gynnal yr Egwyddorion Trosfwaol.

(2) Gweithredu'n onest wrth gynnal busnes cyhoeddus.

(3) Peidio ag ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol.

(4) Peidio ag ymddwyn yn ddiangen, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu.

(5) Cynnal y gyfraith droseddol.

(6) Peidio ag ymosod yn bersonol ar unrhyw un - naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig - mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n

ymosodol gan berson rhesymol a diduedd, gan ystyried y cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo.

(7) Datrys unrhyw wrthdaro sy'n codi rhwng eu buddiannau preifat a budd y cyhoedd ar unwaith, ac o blaid budd y cyhoedd.

(8) Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â datgan a chofrestru buddion ariannol ac eraill ac aelodaeth o gymdeithasau.

(9) Cydymffurfio â'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.

(10) Peidio â chamddefnyddio taliadau, lwfansau nac adnoddau sydd ar gael iddynt o dan benderfyniad Bwrdd Cydnabyddiaeth Annibynnol y Senedd.

(11) Peidio â derbyn unrhyw gymhelliant ariannol, rhodd, lletygarwch neu fudd arall fel cymhelliant neu wobr am gyflawni eu swyddogaethau fel Aelod o'r Senedd, am ddylanwadu ar achos yn y Senedd, neu a allai fel arall ymddangos i berson rhesymol a diduedd i ddylanwadu, neu o bosibl ddylanwadu ar eu gweithredoedd fel Aelod, ac eithrio i'r graddau y mae eu derbyn yn unol â'r ddarpariaeth a wneir mewn Rheolau Sefydlog.

(12) Peidio â defnyddio na cheisio defnyddio eu safle fel Aelod i roi mantais neu driniaeth ffafriol iddo'i hun neu i unrhyw berson arall, neu i osgoi anfantais neu greu anfantais i rywun arall.

(13) Bod yn agored ac yn dryloyw gydag Aelodau eraill, a gyda swyddogion, wrth ddatgelu unrhyw weithgareddau a wneir mewn perthynas â sefydliad neu ar ran sefydliad y mae gan yr Aelod berthynas ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau nad ydynt o reidrwydd yn destun cofnodion cyhoeddus megis cyfarfodydd a swyddogaethau anffurfiol.

(14) Peidio â gweithredu mewn ffordd sy'n ymyrryd yn amhriodol, neu a fwriedir neu a yw'n debygol o ymyrryd yn amhriodol, ar berfformiad y Senedd neu bwyllgor y Senedd wrth ei gwaith, na gallu Aelod, unrhyw aelod o staff Aelod neu swyddogion a gweithwyr Comisiwn y Senedd i gyflawni eu dyletswyddau.

(15) Peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn rhoi pwysau ar unigolion i:

(i) gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol Comisiwn y Senedd neu'r Gwasanaeth Sifil;

(ii) torri Cod Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd;

(iii) torri Cod y Gwasanaeth Sifil;

(iv) torri Cod Ymddygiad Staff Cefnogi; neu

(v) ymdrin â cheisiadau am wybodaeth ac eithrio fel y nodir yng Nghod Ymarfer y Senedd ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth.

(16) Mewn perthynas â datgelu gwybodaeth:

(i) sy’n gyfrinachol neu wedi’i farcio i’w ddiogelu fel arall, ni ddylid ei datgelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu’r awdurdod sy’n rheoli’r wybodaeth neu pan fo angen neu ganiatâd i’w datgelu yn ôl y gyfraith;

(ii) dylid defnyddio’r wybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol yn unig yn eu swydd fel Aelod o’r Senedd, ac ni ddylid defnyddio, neu geisio defnyddio, gwybodaeth o’r fath at ddibenion mantais ariannol neu unrhyw fantais bersonol arall; ac

(iii) ni ddylid atal unrhyw berson rhag cael mynediad at wybodaeth fel y caniateir yn ôl y gyfraith.

(17) Peidio ag annog Aelod arall i fynd yn groes i unrhyw un o'r Safonau Ymddygiad Personol hyn.

(18) Cymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal y Safonau Ymddygiad Personol hyn.

**Rhan 4 - Dyletswyddau Aelodau mewn perthynas â Chwynion ac Ymchwiliadau yn ymwneud â’r Safonau**

10. Mae'r Rhan hon o'r Cod yn berthnasol i gwynion ac ymchwiliadau a gynhelir gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd o dan y Mesur.

11. Lle mae Aelod:

(1) yn destun cwyn;

(2) yn gwneud cwyn;

(3) yn dyst mewn perthynas â chŵyn; neu

(4) wedi cael ei ofyn gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â chŵyn,

rhaid iddo/iddi:

(i) gydweithredu bob amser â Chomisiynydd Safonau'r Senedd wrth gynnal eu hymchwiliad ac unrhyw ystyriaeth ddilynol o'r gŵyn gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd;

(ii) cydymffurfio ag unrhyw reolau a wnaed gan y Senedd yn ymwneud ag ystyried cwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd o dan y Mesur;

(iii) peidio â datgelu manylion mewn perthynas ag ymchwiliad o'r fath ac eithrio pan fydd wedi'i awdurdodi gan y gyfraith i wneud hynny, neu gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd neu awdurdod ymchwilio arall;

(iv) peidio â lobïo aelod o Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd mewn ffordd y cynllunnir neu y bwriedir iddi ddylanwadu'n amhriodol ar ei ystyriaeth ynghylch p’un a dorrwyd y Cod Ymddygiad ai peidio, neu mewn perthynas â gosod cosb; a

(v) peidio â cheisio dylanwadu nac annog unigolyn sy'n gwneud cwyn mewn ymchwiliad i dynnu’r cwyn yn ôl neu newid ei gŵyn, neu unrhyw dyst neu berson arall sy'n cymryd rhan mewn cwyn i dynnu'n ôl neu newid ei dystiolaeth.

12. Rhaid i aelodau beidio â chamliwio unrhyw argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw gŵyn y mae wedi'i hystyried.

13. Rhaid i aelodau beidio â gwneud cwynion gwamal, blinderus neu’n amlwg yn ddi-sail i Gomisiynydd Safonau'r Senedd.

14. Rhaid i aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, sy’n gweithredu ar eu rhan, yn gyfarwydd â darpariaethau'r Rhan hon o'r Cod ac yn cadw atynt.

**Atodiad B Tabl Cymharol**

# Cymhariaeth o destun y diweddariad arfaethedig o'r Cod Ymddygiad â thestun y Cod Ymddygiad cyfredol

1. Mae'n ddefnyddiol darllen y diweddariad arfaethedig o'r Cod fel dogfen 'newydd', yn hytrach nag fel ailadroddiad newydd o'r Cod cyfredol. Serch hynny, er gwybodaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, rydym wedi ceisio darparu cymhariaeth rhwng testunau'r Cod cyfredol a'r diweddariad arfaethedig ar y Cod.

2. Efallai yr hoffai ymgyngoreion nodi bod testun **mewn print trwm** yn dynodi testun sydd naill ai yn y diweddariad arfaethedig o'r Cod, neu yn y Cod cyfredol.

3. Yn y drydedd golofn 'Rhesymeg dros newidiadau' rydym wedi ceisio rhoi disgrifiad byr o'n rhesymeg dros newidiadau penodol. O bryd i'w gilydd, rydym wedi cyfeirio at ymgorffori pwyntiau penodol mewn canllawiau, ac rydym yn bwriadu creu'r canllawiau i gyd-fynd â'r Cod: rydym yn bwriadu y bydd canllawiau o'r fath ar gael i'r cyhoedd, a bwriedir iddynt gynorthwyo Aelodau'r Senedd i gydymffurfio â'r Cod, a chynorthwyo'r cyhoedd yn gyffredinol i benderfynu a yw'r Cod wedi cael ei dorri. Pan fo testun yn cyfateb yn fras rhwng y Cod cyfredol a'r diweddariad arfaethedig o'r Cod (er enghraifft: mae paragraff 2 o'r diweddariad arfaethedig yn cyfateb yn fras i baragraff 1.i. o'r Cod cyfredol) nid ydym wedi gwneud unrhyw sylw yn y golofn 'Rhesymeg colofn newidiadau'.

| Diweddariad arfaethedig o'r Cod | Cod Cyfredol | Nodiadau / Rhesymeg dros newidiadau |
|---|---|---|
| **1. Mae'r Cod Ymddygiad hwn ("Cod") yn cynnwys:**<br>**- Rhan 1 Cyflwyniad a statws y Cod**<br>**- Rhan 2 Dehongli ac Egwyddorion Trosfwaol**<br>**- Rhan 3 Safonau Ymddygiad Personol yr Aelodau**<br>**- Rhan 4 Dyletswyddau Aelodau mewn perthynas â Chwynion ac Ymchwiliadau'n ymwneud â'r Safonau** | Dim testun cyfatebol | Mae'r testun hwn wedi'i gynnwys yn y diweddariad arfaethedig o'r Cod (y Cod wedi'i ddiweddaru) i gynorthwyo'r darllenydd, trwy nodi strwythur y Cod wedi'i ddiweddaru. |
| **2. Mae'r Cod yn nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau'r Senedd, ac mae'n God sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Senedd at ddibenion Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009. Mabwysiadwyd y Cod trwy benderfyniad y Senedd dyddiedig [dyddiad].** | **1. Pwrpas y Cod Ymddygiad hwn yw:**<br>(a) rhoi canllawiau i holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol ar y safonau ymddygiad a ddisgwylir ganddynt wrth gyflawni eu dyletswyddau i'r Cynulliad a'u dyletswyddau cyhoeddus;<br>(b) bod mor agored ac atebol ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd hyder yn y ffordd y mae Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyflawni eu dyletswyddau i'r Cynulliad a'u dyletswyddau cyhoeddus. | Nid oes gan baragraff (Para) 1.ii yn y Cod cyfredol destun cyfatebol yn y Cod wedi'i ddiweddaru. Fodd bynnag, ein bwriad yw y bydd canllawiau i gyd-fynd â'r Cod wedi'i ddiweddaru yn nodi y bydd defnyddio'r Cod yn effeithiol yn gwella hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae Aelodau'n cyflawni eu cyfrifoldebau. |

| | | |
|---|---|---|
| **3. Mae'r Senedd a chadeiryddion pwyllgorau yn ymdrin ag ymddygiad Aelodau yn ystod sesiynau llawn y Senedd ac mewn pwyllgorau trwy ddefnyddio Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â chynnal trefn yn ystod achos.** | Dim testun cyfatebol | Mae paragraff 3 wedi'i gynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru i egluro ffiniau awdurdodaeth cadeiryddion pwyllgor a phwyllgorau. |
| **4. Gall Comisiwn y Senedd gyhoeddi canllawiau o bryd i'w gilydd i gynorthwyo Aelodau a'u staff i gydymffurfio â'r Cod, a gall y Comisiynydd Safonau roi sylw i ganllawiau o'r fath wrth ystyried unrhyw gŵyn o fethiant i gydymffurfio â darpariaethau'r Cod.** | Dim testun cyfatebol. | Mae paragraff 4 wedi'i gynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu bod y canllawiau ar wahân i'r rheolau. Bwriad hyn yw ei gwneud yn gliriach o ran yr hyn sy'n ofynnol yn ôl y rheolau. |
| **5. Mae'r Cod yn berthnasol i Aelodau sy'n dal swydd gyhoeddus Aelod o'r Senedd bob amser, gan gynnwys bywydau personol a phreifat yr Aelodau.** | Ar hyn o bryd ni ddehonglir unrhyw destun sy'n cyfateb yn uniongyrchol (er bod paragraff 2 isod, ar y cyd â'r polisi urddas a pharch, yn golygu bod y Cod yn berthnasol i Aelodau bob amser) | Mae paragraff 5 wedi'i gynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru i nodi'n benodol bod y Cod yn berthnasol i Aelodau bob amser. |
| **Dim testun cyfatebol.** | **2. Mae'r Cod yn berthnasol i holl Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd heb gymryd cyfnod o absenoldeb o'r gwaith.** | Nid yw'r testun hwn wedi'i gynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r bwriad bod y Cod yn berthnasol i Aelodau bob amser. |
| **Amrywiol:**<br>**- cywerthedd a drafodir ym mharagraffau 6, 9, 12-14 yn y Cod wedi'i ddiweddaru, sy'n nodi'r hyn y mae'n 'rhaid' i Aelodau ei wneud neu 'beidio ei wneud';**<br>**- dim testun cyfatebol i ymddwyn yn anrhydeddus' bob amser;** | **3. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad:**<br>(a) gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad;<br>(b) ymddwyn yn anrhydeddus bob amser;<br>(c) peidio â derbyn unrhyw arian fel cymhelliant neu dâl am arfer dylanwad seneddol; | Nid yw'r cysyniad o ymddwyn yn anrhydeddus bob amser' wedi'i gynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru, ar y sail bod y gofyniad hwn yn arbennig o oddrychol. |

| | | |
|---|---|---|
| **- cywerthedd a ddarperir gan reol 9(11) - (11) Peidio â derbyn unrhyw gymhelliant ariannol, rhodd, lletygarwch neu fudd arall fel cymhelliant neu wobr am gyflawni eu swyddogaethau fel Aelod o'r Senedd, am ddylanwadu ar achos yn y Senedd, neu a allai fel arall ymddangos i berson rhesymol a diduedd i ddylanwadu, neu o bosibl ddylanwadu ar eu gweithredoedd fel Aelod, ac eithrio i'r graddau y mae eu derbyn yn unol â'r ddarpariaeth a wneir mewn Rheolau Sefydlog.** | (d) peidio â derbyn tâl neu unrhyw fudd materol arall am bleidleisio ar unrhyw Orchymyn neu gynnig, neu ofyn unrhyw gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn neu bwyllgor, neu hyrwyddo unrhyw fater, (y rheolau ynghylch “adfocatiaeth ddi-dâl”). | Rhagwelir y bydd canllawiau i gyd-fynd â'r Cod wedi'i Ddiweddaru yn nodi bod pleidleisio ar Orchmynion, gofyn cwestiynau, neu hyrwyddo materion yn enghreifftiau o Aelodau'n cyflawni eu swyddogaethau fel Aelod o'r Senedd, ac felly ni ddylid eu cyflawni yn gyfnewid am daliad neu fudd materol arall |
| **6. Rhaid i aelodau ymddwyn yn unol â'r egwyddorion canlynol (y cyfeirir atynt yn y Cod fel “yr Egwyddorion Trosfwaol”):** | **4. Dylai Aelodau'r Cynulliad gadw at y saith egwyddor gyffredinol ynghylch ymddygiad a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau Bywyd Cyhoeddus. Dyma'r saith egwyddor:** | |
| **Anhunanoldeb**<br>**Dylai aelodau wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa’n ariannol neu’n faterol.**<br>**Mae'r Cod cyfredol yn nodi bod yn rhaid 'datrys gwrthdaro' mewn perthynas ag egwyddorion Anhunanoldeb a Gonestrwydd. Yn y Cod wedi'i ddiweddaru, disodlir hwn gan un cyfeiriad o dan yr egwyddor 'Gonestrwydd'** | **Anhunanoldeb Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud penderfyniadau er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa’n ariannol neu’n faterol.**<br>**Dylai Aelodau'r Cynulliad osgoi unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau personol a’u buddiannau cyhoeddus a dylent ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng y ddau ar unwaith a hynny o blaid buddiannau’r cyhoedd.** | Nid yw'r egwyddor o 'osgoi gwrthdaro' yn rhan o'r Cod wedi'i ddiweddaru, ar y rhesymeg y gellid cymryd bod hyn yn awgrymu y dylai'r Aelodau hepgor yr holl fuddiannau personol. |
| **Uniondeb**<br>**Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu** | **Uniondeb**<br>**Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus eu rhoi eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol** | |

| | | |
|---|---|---|
| **rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol.**<br><br>**Testun cyfatebol a ddarperir gan baragraff 9(15): "Rhaid i aelodau beidio ag ymddwyn mewn modd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn rhoi pwysau ar unigolion i: (i) gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol Comisiwn y Senedd neu'r Gwasanaeth Sifil; (ii) torri Cod Ymddygiad Comisiwn y Senedd; (iii) torri Cod y Gwasanaeth Sifil. "** | **neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff allanol a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol.**<br><br>**Ni ddylai'r Aelodau ofyn i staff Comisiwn y Cynulliad na staff Llywodraeth Cymru weithredu mewn unrhyw ffordd a allai gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil a/neu staff Comisiwn y Cynulliad neu wrthdaro â Chod y Gwasanaeth Sifil a/neu God Ymddygiad Staff Comisiwn y Cynulliad"** | Gan fod 'gofyn i staff y Comisiwn / Llywodraeth weithredu mewn ffordd a allai gyfaddawdu eu Codau priodol' yn fath mwy penodol o ymddygiad na mynegi'r egwyddor gyffredinol o uniondeb, fe'i mynegir yn y Cod wedi'i ddiweddaru fel rheol benodol yn 9(15). |
| **Gwrthrychedd**<br>**Wrth gyflawni eu busnes dylai'r Aelodau wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.** | **Gwrthrychedd: Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.** | Nid yw'r enghreifftiau o 'fusnes' (gwneud penodiadau cyhoeddus, ac ati) wedi'u cynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru, ar y sail, er bod Aelodau'n cyflawni'r swyddogaethau hyn (ee wrth benodi'r ombwdsmon gwasanaeth cyhoeddus), nid ydynt yn adlewyrchu'r penderfyniadau o ddydd i ddydd y mae Aelodau'n gwneud cymryd wrth gyflawni eu busnes. Fodd bynnag, ein bwriad yw y byddai canllawiau i gyd-fynd â'r Cod wedi'i ddiweddaru yn dal i nodi'r prosesau hyn fel enghreifftiau o fusnes |

| | | |
|---|---|---|
| | | lle mae'n rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant. |
| **Atebolrwydd**<br>**Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.**<br><br>**Testun cyfatebol wedi'i ddarparu gan:**<br>- **rheol 9(9) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gydymffurfio â'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd, a**<br>- **rheol 9(10) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelodau beidio â chamddefnyddio taliadau, lwfansau neu adnoddau sydd ar gael iddynt o dan benderfyniad Bwrdd Cydnabyddiaeth Annibynnol y Senedd.** | **Atebolrwydd: Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy'n addas i'w swydd.**<br><br>**Ni ddylid gwneud unrhyw ddefnydd amhriodol o unrhyw daliad neu lwfans a roddir i Aelodau'r Cynulliad at ddibenion cyhoeddus a rhaid cadw at y rheolau gweinyddol sy'n gysylltiedig â thaliadau a lwfansau tebyg.** | Gan fod yr adran hon (defnydd amhriodol o daliadau) yn cyfeirio at fath penodol o ymddygiad yn hytrach nag egwyddor gyffredinol atebolrwydd, fe'i mynegir yn y Cod wedi'i ddiweddaru fel rheolau 9(9) a 9(10). Er eglurder, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw daliadau neu lwfansau yn dod y tu allan i'r Rheolau Adnoddau a'r Penderfyniad. |
| **Bod yn agored**<br>**Mae'n rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar wybodaeth onid oes angen am hynny o ganlyniad i ofynion statudol, Rheolau Sefydlog y Senedd a rheolau sy'n rhwymo Aelodau'r Senedd a'u** | **Bod yn agored: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.** | |

| | | |
|---|---|---|
| **staff, neu pan fo budd y cyhoedd ehangach yn amlwg yn mynnu hynny.**<br>**Testun cyfatebol a ddarperir gan reol 9(16):**<br>- **Rhaid i aelodau, mewn perthynas â datgelu gwybodaeth: (i) sy'n gyfrinachol neu wedi'i farcio i'w ddiogelu fel arall, beidio â'i datgelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu'r awdurdod sy'n rheoli'r wybodaeth neu pan fo angen eu caniatâd i'w datgelu yn ôl y gyfraith;**<br>- **(ii) dylid defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol yn unig yn eu swydd fel Aelod o'r Senedd, ac ni ddylid defnyddio, neu geisio defnyddio, gwybodaeth o'r fath at ddibenion mantais ariannol neu unrhyw fantais bersonol arall; ac (iii) ni ddylid atal unrhyw berson rhag cael mynediad at wybodaeth fel y caniateir gan y gyfraith.**<br>-<br>**a rheol 9(13):**<br>- **Mae'n rhaid i Aelodau fod yn agored ac yn dryloyw gydag Aelodau eraill, a gyda swyddogion, wrth ddatgelu unrhyw weithgareddau a wneir mewn perthynas â sefydliad neu ar ran sefydliad y mae gan yr Aelod berthynas ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau nad ydynt o reidrwydd yn destun cofnodion cyhoeddus megis cyfarfodydd a swyddogaethau anffurfiol.** | **Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad atal unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae hawl gan y person o dan sylw ei gweld yn ôl y gyfraith, ond ni ddylai ddatgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol o Bwyllgorau'r Cynulliad, heb ganiatâd oni bai ei bod hi'n rheidrwydd arnynt o dan y gyfraith i wneud hynny. Dylai unrhyw wybodaeth gyfrinachol a dderbynnir gan yr Aelodau mewn perthynas â'u dyletswyddau swyddogol gael ei defnyddio i gyflawni'r dyletswyddau hynny yn unig ac ni ddylid ei defnyddio er budd personol. Mewn unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â, neu ar ran, sefydliad y mae gan yr Aelod gyswllt ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau lle nad oes cofnod cyhoeddus ohonynt megis cyfarfodydd anffurfiol, rhaid i'r Aelodau gadw mewn cof yr angen i fod yn agored gydag Aelodau eraill y Cynulliad, a swyddogion.** | Gan fod 'atal person rhag cyrchu gwybodaeth (ac ati)' yn fath penodol o ymddygiad, yn hytrach na mynegiant o'r egwyddor gyffredinol fe'i mynegir yn y fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cod fel rheolau 9(16) a rheol 9(13) . |

| | | |
|---|---|---|
| **Gonestrwydd**<br>**Mae'n rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest, mae'n rhaid iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.** | **Gonestrwydd:**<br>**Mae'n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy'n diogelu buddiannau cyhoeddus.** | Mae'r testun 'Mae'n rhaid i aelodau fod yn onest' wedi'i gynnwys i ddarparu eglurder bod egwyddor Nolan o 'onestrwydd' yn gofyn am hynny. |
| **Parch**<br>**Rhaid i aelodau ymddwyn bob amser mewn modd sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal, yn parchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu yn ddiangen.** | Dim testun cyfatebol yn y cod cyfredol. | Credwn y byddai'r cysyniad o drin pawb â pharch yn ychwanegiad pwysig at egwyddorion allweddol bywyd cyhoeddus, fel y nodir yn Egwyddorion Nolan. |
| **Arweinyddiaeth**<br>**Rhaid i aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy arweinyddiaeth a dangos esiampl, a bod yn barod i herio ymddygiad gwael lle bynnag y mae'n digwydd.** | **Arweinyddiaeth: Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweiniad a dangos esiampl.** | Mae cynnwys y gofyniad i 'herio ymddygiad gwael' yn y Cod wedi'i ddiweddaru wedi'i gynnwys i adlewyrchu polisi Urddas a Pharch y Senedd. |
| 7. **Mae'r safonau ymddygiad a nodir yn Rhannau 3 a 4 o'r Cod hwn i'w dehongli yn unol â'r Egwyddorion Trosfwaol ac mae torri'r Cod yn golygu torri unrhyw un o'r safonau a nodir yn rhannau 3 a 4 o'r Cod hwn.** | Dim testun cyfatebol | Bwriad y testun hwn yn y Cod wedi'i ddiweddaru yw darparu eglurder i'r darllenydd. |
| 8. **Yn y Cod hwn:** | | |
| (b) **mae "bwlio" yn golygu ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus neu sarhaus; neu gam-drin neu gamddefnyddio pŵer mewn ffordd sy'n bwriadu tanseilio, bychanu, beirniadu'n annheg neu anafu rhywun;** | Dim testun cyfatebol. | Bwriad y testun hwn yn y Cod wedi'i ddiweddaru yw darparu eglurder i'r darllenydd. |

| | | |
|---|---|---|
| **(7) mae "gwahaniaethu" yn cynnwys ymddygiad sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail hil, oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, barn wleidyddol, dewis iaith, statws teuluol ac a oes gan berson ddibynyddion ai peidio;** | Dim testun cyfatebol. | Bwriad y testun hwn yn y Cod wedi'i ddiweddaru yw darparu eglurder i'r darllenydd. |
| **(8) mae "aflonyddu" yn gyda'r diben neu effaith o amharchu urddas unigolyn neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, israddol, bychanol neu annymunol ar gyfer unigolyn, ac mae'n cynnwys aflonyddu rhywiol;** | Dim testun cyfatebol. | Bwriad y testun hwn yn y Cod wedi'i ddiweddaru yw darparu eglurder i'r darllenydd. |
| **(9) Mae "ymddygiad digroeso" yn golygu ymddygiad nad yw'n cael ei annog na'i gyfnewid gan y sawl sy'n destun i'r ymddygiad, p'un a yw'r ymddygiad wedi'i fwriadu i beri tramgwydd ai peidio, a ph'un a yw'n digwydd dro ar ôl tro neu unwaith yn unig; ac** | Dim testun cyfatebol | Bwriad y testun hwn yn y Cod wedi'i ddiweddaru yw darparu eglurder i'r darllenydd. |
| **(10) mae "Y Mesur" yn golygu Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009 (mccc 4)** | Dim testun cyfatebol | Bwriad y testun hwn yn y Cod wedi'i ddiweddaru yw darparu eglurder i'r darllenydd. |
| **9. Rhaid i'r Aelodau:** | | |
| **(1) Gynnal yr Egwyddorion Trosfwaol.** | Dim testun cyfatebol | Ychwanegwyd rheol 9(1) at y Cod wedi'i ddiweddaru gan ragweld na fydd y rhestr o reolau yn rhagweld yn llwyr yr holl sefyllfaoedd a allai godi. Felly mae rheol 9(1) yn darparu i gŵyn gael ei hystyried ar sail methiant i gynnal yr egwyddor(ion) trosfwaol yn hytrach na rheol benodol arall. |
| **(2) Gweithredu'n onest wrth gynnal busnes cyhoeddus.** | Dim testun cyfatebol | Mae 9(2) wedi'i gynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru i roi'r egwyddor gonestrwydd ar waith yn y rheolau penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **(3) Peidio ag ymddwyn mewn modd sy'n dwyn anfri ar y Senedd neu ei Haelodau yn gyffredinol.** | Mae'r rheol hon yn debyg i'r testun yn y Cod cyfredol sy'n gysylltiedig ag egwyddor uniondeb: Dylai Aelodau'r Cynulliad bob amser ymddwyn mewn ffordd a fydd yn cynnal ac yn cryfhau ffydd a hyder y cyhoedd yn unplygrwydd y Cynulliad ac osgoi unrhyw ymddygiad a fydd yn dwyn gwarth ar y Cynulliad neu ar ei Aelodau'n gyffredinol. | |
| **(4) Peidio ag ymddwyn yn ddiangen, aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu.** | Dim testun cyfatebol yn y Cod cyfredol. Fodd bynnag, mae Polisi Urddas a Pharch y Senedd yn nodi bod ymddygiad amhriodol yn golygu unrhyw ymddygiad sy'n effeithio'n andwyol ar urddas person arall. Mae'n cynnwys aflonyddu, aflonyddu rhywiol, bwlio, bygwth a gwahaniaethu anghyfreithlon. | Bwriad 9(4) yw ymgorffori elfen allweddol o bolisi urddas a pharch y Senedd yn y Cod wedi'i ddiweddaru fel rheol glir |
| **(5) Cynnal y gyfraith droseddol.** | Dim testun cyfatebol yn y Cod cyfredol. Fodd bynnag, mae'r Polisi Urddas a Pharch yn nodi y gall achosion o ymddygiad amhriodol fod yn droseddau, megis aflonyddu troseddol, ymosodiad cyffredin neu ymosodiad rhywiol ac mae cynnwys y rheol hon yn adlewyrchu'r sefyllfa honno. Byddai'r rheol hefyd yn ymdrin ag achosion eraill (er enghraifft, pe bai Aelod yn cyflawni trosedd trefn gyhoeddus). | Bwriad 9(5) yw ymgorffori elfen allweddol o bolisi urddas a pharch y Senedd yn y Cod wedi'i ddiweddaru fel rheol glir. |
| **(6) Peidio ag ymosod yn bersonol ar unrhyw un - mewn unrhyw ohebiaeth (boed ar lafar, yn ysgrifenedig neu unrhyw fath o gyfrwng electronig neu gyfrwng arall,) - mewn modd a fyddai'n cael ei ystyried yn ormodol neu'n ymosodol gan berson rhesymol a diduedd,** | Dim testun cyfatebol yn y Cod cyfredol. Fodd bynnag, mae'r polisi urddas a pharch yn nodi "gall ymddygiad amhriodol fod ar sawl ffurf. Y mwyaf amlwg yw cyffyrddiad corfforol a geiriau (llafar neu ysgrifenedig). Ond mae enghreifftiau eraill yn cynnwys delweddau – gan gynnwys y rheini ar gyfrifiaduron a chlipiau fideo – | Bwriad 9(6) yw ymgorffori elfen allweddol o bolisi urddas a pharch y Senedd yn y Cod wedi'i ddiweddaru fel rheol glir. |

| | | |
|---|---|---|
| **gan roi sylw i'r cyd-destun y gwnaed y sylwadau ynddo.** | ystumiau, golwg ar wyneb, dynwared, jôcs, gwneud drygau a gweithredoedd sy'n effeithio ar amgylchedd rhywun. | |
| (7) **Datrys unrhyw wrthdaro sy'n codi rhwng eu buddiannau preifat a budd y cyhoedd ar unwaith, ac o blaid budd y cyhoedd.** | Yn gyfwerth â thestun yn y Cod cyfredol sy'n gysylltiedig ag egwyddorion anhunanoldeb a gonestrwydd (h.y. Rhaid i'r Aelodau ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng y ddau ar unwaith ac o blaid budd y cyhoedd). | |
| (8) **Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog y Senedd sy'n ymwneud â datgan a chofrestru buddion ariannol ac eraill ac aelodaeth cymdeithasau.** | Cyfwerth â pharagraffau 5-9 o'r Cod cyfredol (nodir yn llawn isod):<br>**"5. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad gofrestru'r holl fuddiannau perthnasol a nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2 yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau, er mwyn nodi'n glir unrhyw fuddiannau y gellir eu hystyried yn rhai a fyddai'n dylanwadu ar eu gweithredoedd.**<br>**6. Dyma gategorïau'r buddiannau y dylid eu cofrestru (fel y'u nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 2)**<br>**Unrhyw gyfarwyddiaeth sydd gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, mewn cwmnïau preifat neu gyhoeddus, gan gynnwys y rhai di-dâl lle ceir cydnabyddiaeth ariannol drwy gwmni arall yn yr un grŵp.**<br>**Cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (heblaw aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod, yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod unrhyw fuddiant ariannol** | Mae paragraffau 5-9 o'r Cod cyfredol yn ailadrodd testun nifer o Reolau Sefydlog y Senedd (2.9, 13.8A, 18.8A a'r atodiad i reol sefydlog 2). Bwriad cyfeirio at Reolau Sefydlog ar y cyd yn y Cod wedi'i ddiweddaru yw dileu'r potensial am anghysondebau rhwng y Cod a Rheolau Sefydlog y Senedd. Mae'r **canllawiau presennol i Aelodau'r Senedd ar gofrestru, datgan a chofnodi buddiannau eraill** yn darparu gwybodaeth am y broses a'r arfer o gydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog perthnasol, a bydd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | **ynddynt, gan gynnwys derbyn unrhyw arian cyhoeddus.**<br>**Enwau cleientiaid, pan fydd y buddiannau y cyfeiriwyd atynt uchod yn cynnwys gwasanaethau gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, neu sy'n ymwneud mewn rhyw fodd ag aelodaeth o'r Cynulliad neu'n deillio o hynny.**<br>**Rhoddion, lletygarwch, buddion materol neu fantais faterol, y mae eu gwerth yn uwch na'r hyn a bennir mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad, a dderbynnir gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, oddi wrth gwmni, corff neu unigolyn ac sy'n ymwneud mewn rhyw fodd ag aelodaeth o'r Cynulliad neu'n deillio o hynny.**<br>**Unrhyw dâl neu fudd materol y mae'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, yn ei gael gan unrhyw gwmni preifat neu gyhoeddus neu unrhyw gorff arall sydd, hyd y gŵyr yr Aelod, wedi tendro neu sy'n tendro, am gontract gyda Chomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, neu sy'n meddu ar gontract.**<br>**Nawdd ariannol (i) fel ymgeisydd yn etholiad y Cynulliad lle, hyd y gŵyr yr Aelod, bod y nawdd mewn unrhyw achos yn fwy na 25 y cant o gostau etholiad yr ymgeisydd neu (ii) fel Aelod o'r Cynulliad gan unrhyw berson neu** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **sefydliad, gan nodi a fydd y cyfryw nawdd yn cynnwys tâl i'r Aelod neu unrhyw fantais neu fudd materol.**<br><br>**Yn unol ag unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cynulliad, ymweliadau tramor gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, sy'n ymwneud â neu'n deillio o Aelodaeth o'r Cynulliad, os na fydd costau ymweliad o'r fath wedi'u talu'n llawn gan yr Aelod neu gan arian cyhoeddus.**<br><br>**Unrhyw dir neu eiddo'r Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, tir neu eiddo partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, y mae iddo werth sylweddol fel y'i pennwyd mewn unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad neu y ceir incwm sylweddol ohono, heblaw unrhyw gartref a ddefnyddir fel cartref personol gan yr Aelod, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod.**<br><br>**Enwau'r cwmnïau neu gyrff eraill y mae gan yr Aelod fuddiant lles ynddynt naill ai ar ei ben/phen ei hun neu gyda, neu ar ran, partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol, neu hyd y gŵyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod, neu unrhyw blentyn dibynnol, fuddiant llesol mewn cyfranddaliadau sydd â'u gwerth yn fwy nag un y cant o'r cyfalaf cyfranddaliadau a gyhoeddwyd, neu lai nag un y cant ond mwy na'r swm a bennwyd mewn unrhyw benderfyniad a wnaed gan y Cynulliad.** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Aelodaeth neu gadeiryddiaeth gyda thâl neu’n ddi-dâl sydd gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod, ar unrhyw gorff a ariennir yn llwyr neu’n rhannol gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru, lle gŵyr yr Aelod, neu y dylai fod wedi gwybod, bod hynny wedi’i ariannu gan Gomisiwn y Cynulliad neu Lywodraeth Cymru.**<br><br>**7. Rhaid i Aelodau'r Cynulliad, cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion y Cynulliad, ddatgan unrhyw fuddiant sy'n berthnasol, o dan Reol Sefydlog 2, yng nghyd-destun y drafodaeth neu'r mater sydd o dan sylw. Rhaid i ddatganiad fod yn gysylltiedig â’r penderfyniad a gaiff ei wneud yn y cyfarfod o dan sylw. Rhaid bod yn berthnasol i fater lle gall yr Aelod (neu bartner neu blant dibynnol) elwa'n ariannol o'r penderfyniad, lle byddai'r fantais honno yn fwy na'r hyn a allai gael ei gronni ar gyfer etholwyr yn gyffredinol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn i'r gynulleidfa allu ffurfio barn gytbwys o'r holl ddadleuon.**<br><br>**8. Nid oes gan Aelod yr hawl i bleidleisio mewn unrhyw un o drafodion y Cynulliad os, mewn perthynas ag unrhyw fuddiant y dylid bod wedi'i gofrestru o dan Reol Sefydlog 2, y gallai penderfyniad penodol gan y Cynulliad neu Bwyllgor olygu mwy o fantais ariannol i'r** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Aelod na'r hyn a allai gael ei gronni ar gyfer etholwyr yn gyffredinol.**<br><br>**9. Ar yr adeg berthnasol yn unrhyw drafodion y Cynulliad, rhaid i'r Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau, ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod neu, hyd y gŵyr yr Aelod, aelod o deulu'r Aelod, neu y maent yn disgwyl eu cael, sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, y gallai fod yn rhesymol i bobl eraill ystyried y byddai hynny'n dylanwadau ar gyfraniad yr Aelod.** | |
| (9) **Cydymffurfio â'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd.** | **10. Gofynnir i'r Aelodau gydymffurfio â'r Canllawiau i Aelodau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Cynulliad, ac unrhyw ganllawiau ar y defnydd o adnoddau'r Cynulliad sy'n ymwneud yn benodol ag ymgyrchoedd etholiadol.** | Ni ystyrir bod angen cyfeirio yn y Cod at ganllawiau ar ddefnyddio adnoddau'r Senedd sy'n ymwneud ag ymgyrchoedd etholiadol. |
| (10) **Peidio â chamddefnyddio taliadau, lwfansau nac adnoddau sydd ar gael iddynt o dan benderfyniad Bwrdd Cydnabyddiaeth Annibynnol y Senedd.** | **13. Gofynnir i'r Aelodau gydymffurfio â Phenderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) (Cyflogau a Lwfansau ac ati).**<br><br>**14. Mae'r Penderfyniad yn nodi'r cyflogau a'r lwfansau y mae gan yr Aelodau yr hawl i'w cael drwy gyflawni dyletswyddau'r Cynulliad.** | Ystyrir bod rheol 9(10) yn y cod wedi'i ddiweddaru yn gyfwerth â pharagraffau 13 a 14 o'r cod cyfredol.<br><br>Ar gyfer cyfeiriadau darllenwyr - mae paragraffau 11 a 12 o'r Cod cyfredol wedi'u nodi yn y drefn isod. |
| (11) **Peidio â derbyn unrhyw gymhelliant ariannol, rhodd, lletygarwch neu fudd arall fel cymhelliant neu wobr am gyflawni eu swyddogaethau fel Aelod o'r Senedd, am ddylanwadu ar achos yn y Senedd, neu a allai** | Cyfwerth â thestun ym mharagraff 3 o'r cod cyfredol: (d) peidio â derbyn tâl neu unrhyw fudd materol arall am bleidleisio ar unrhyw Orchymyn neu gynnig, neu ofyn unrhyw gwestiwn yn y Cyfarfod Llawn neu bwyllgor, | |

| | | |
|---|---|---|
| **fel arall ymddangos i berson rhesymol a diduedd i ddylanwadu, neu o bosibl ddylanwadu ar eu gweithredoedd fel Aelod, ac eithrio i'r graddau y mae eu derbyn yn unol â'r ddarpariaeth a wneir mewn Rheolau Sefydlog.** | neu hyrwyddo unrhyw fater, (y rheolau ynghylch "adfocatiaeth ddi-dâl"). | |
| (12) **Peidio â defnyddio na cheisio defnyddio eu safle fel Aelod i roi mantais neu driniaeth ffafriol iddo'i hun neu i unrhyw berson arall, neu i osgoi anfantais neu greu anfantais i rywun arall.** | Dim testun cyfatebol. | Mae rheol 9(12) wedi'i chynnwys yn y Cod wedi'i ddiweddaru i roi'r egwyddor o anhunanoldeb i rym. |
| (13) **Bod agored ac yn dryloyw gydag Aelodau eraill, a gyda swyddogion, wrth ddatgelu unrhyw weithgareddau a wneir mewn perthynas â sefydliad neu ar ran sefydliad y mae gan yr Aelod berthynas ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau nad ydynt o reidrwydd yn destun cofnodion cyhoeddus megis cyfarfodydd a swyddogaethau anffurfiol.** | Yn cyfateb i destun sy'n gysylltiedig â'r Cod cyfredol ag egwyddor didwylledd: Mewn unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â, neu ar ran, sefydliad y mae gan yr Aelod gyswllt ariannol ag ef, gan gynnwys gweithgareddau lle nad oes cofnod cyhoeddus ohonynt megis cyfarfodydd anffurfiol, rhaid i'r Aelodau gadw mewn cof yr angen i fod yn agored gydag Aelodau eraill y Cynulliad, a swyddogion. | |
| (14) **Peidio â gweithredu mewn ffordd sy'n ymyrryd yn amhriodol, neu a fwriedir neu a yw'n debygol o ymyrryd yn amhriodol, ar berfformiad y Senedd neu bwyllgor y Senedd wrth ei gwaith, na gallu Aelod, unrhyw aelod o staff Aelod neu swyddogion a gweithwyr Comisiwn y Senedd i gyflawni eu dyletswyddau.** | Dim testun cyfatebol. | Mae rheol 9(14) wedi'i chynnwys i ddarparu eglurder y byddai gweithredoedd o'r fath yn torri'r Cod. |

| | | |
|---|---|---|
| (15) **Peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn rhoi pwysau ar unigolion i:**<br><br>**- gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol Comisiwn y Senedd neu'r Gwasanaeth Sifil;**<br><br>**- torri Cod Ymddygiad Staff Comisiwn y Senedd;**<br><br>**- torri Cod y Gwasanaeth Sifil;**<br><br>**- torri Cod Ymddygiad Staff Cymorth; neu**<br><br>**- ymdrin â cheisiadau am wybodaeth ac eithrio fel y nodir yng Nghod Ymarfer y Senedd ar Fynediad Cyhoeddus i Wybodaeth.** | Cyfwerth â:<br><br>Ni ddylai'r Aelodau ofyn i staff Comisiwn y Cynulliad na staff Llywodraeth Cymru weithredu mewn unrhyw ffordd a allai gyfaddawdu amhleidioldeb gwleidyddol y Gwasanaeth Sifil a/neu staff Comisiwn y Cynulliad neu wrthdaro â Chod y Gwasanaeth Sifil a/neu God Ymddygiad Staff Comisiwn y Cynulliad”<br><br>**12. Mae holl staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru (staff Comisiwn y Cynulliad) yn rhwymedig i God Ymddygiad Staff, ac mae staff Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhwymedig i God y Gwasanaeth Sifil. Dylai Aelodau barchu egwyddorion y ddau God wrth ymdrin â staff o’r cyrff hyn. Dylai’r gydberthynas rhwng yr Aelodau a staff fod yn broffesiynol, a bod y naill ochr yn parchu’r llall, a dylai'r Aelodau ystyried dyletswydd y staff i fod yn ddiduedd yn wleidyddol wrth gyflawni eu dyletswyddau.**<br><br>**11. Mae egwyddorion Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth ddarparu gwybodaeth wedi’u nodi yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, a gymeradwywyd gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae gofyn i Aelodau’r Cynulliad sy’n chwilio am wybodaeth gydymffurfio gyda’r Cod drwy wneud cais ysgrifenedig neu dros e-bost (Assembly-Accesstoinformation@cynulliad.cymru) at y Cynghorwr Mynediad at Wybodaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** | |

| | | |
|---|---|---|
| (16) **Mewn perthynas â datgelu gwybodaeth:**<br>**- sy'n gyfrinachol neu wedi'i farcio i'w ddiogelu fel arall, ni ddylid ei datgelu ac eithrio pan fo awdurdod i wneud hynny gan y person neu'r awdurdod sy'n rheoli'r wybodaeth neu pan fo angen eu caniatâd i'w datgelu yn ôl y gyfraith;**<br>**- dylid defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir yn gyfrinachol yn unig yn eu swydd fel Aelod o'r Senedd, ac ni ddylid defnyddio, neu geisio defnyddio, gwybodaeth o'r fath at ddibenion mantais ariannol neu unrhyw fantais bersonol arall; ac**<br>**- ni ddylid atal unrhyw berson rhag cael mynediad at wybodaeth fel y caniateir gan y gyfraith.** | Yn cyfateb i destun yn y Cod cyfredol sy'n gysylltiedig ag egwyddor didwylledd: Ni ddylai Aelodau'r Cynulliad atal unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae hawl gan y person o dan sylw ei gweld yn ôl y gyfraith, ond ni ddylai ddatgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol, gan gynnwys gwybodaeth gyfrinachol o Bwyllgorau'r Cynulliad, heb ganiatâd oni bai ei bod hi'n rheidrwydd arnynt o dan y gyfraith i wneud hynny. Dylai unrhyw wybodaeth gyfrinachol a dderbynnir gan yr Aelodau mewn perthynas â'u dyletswyddau swyddogol gael ei defnyddio i gyflawni'r dyletswyddau hynny yn unig ac ni ddylid ei defnyddio er budd personol. | |
| (17) **Peidio ag annog Aelod arall i fynd yn groes i unrhyw un o'r Safonau Ymddygiad Personol hyn.** | Dim testun cyfatebol. | Ychwanegwyd rheol 9(17) at y Cod wedi'i ddiweddaru gan roi'r egwyddor uniondeb ar waith. |
| (18) **Cymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, wrth weithredu ar eu rhan, hefyd yn cynnal y Safonau Ymddygiad Personol hyn.** | Dim testun cyfatebol. | Roedd rheol 9(18) wedi'i chynnwys i ddarparu eglurder y byddai methu â chymryd camau o'r fath yn torri'r Cod. |
| 10. **Mae'r Rhan hon o'r Cod yn berthnasol i gwynion ac ymchwiliadau a gynhelir gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd o dan y Mesur.** | Dim testun cyfatebol | Testun wedi'i gynnwys i roi eglurder i'r darllenydd. |
| 11. **Lle mae Aelod:**<br>(5) **yn destun cwyn;** | Amrywiol: | |

| | | |
|---|---|---|
| **(6) yn gwneud cwyn;**<br><br>**(7) yn dyst mewn perthynas â chwyn; neu**<br><br>**(8) wedi cael ei ofyn gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd i ddarparu gwybodaeth mewn perthynas â chwyn,**<br><br>Rhaid iddynt: | | |
| **- gydweithredu, ym mhob cam, â Chomisiynydd Safonau'r Senedd wrth gynnal eu hymchwiliad ac unrhyw ystyriaeth ddilynol o'r gŵyn gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd;** | **15. Bydd yr Aelodau yn cydweithredu, ym mhob cam, ag unrhyw ymchwiliad i'w hymddygiad gan y Comisiynydd Safonau; neu gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i).** | |
| **- cydymffurfio ag unrhyw reolau a wneir gan y Senedd sy'n ymwneud ag ystyried cwynion yn erbyn Aelodau'r Senedd gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd o dan y Mesur;** | Dim testun cyfatebol | Ychwanegwyd rheol at y Cod wedi'i ddiweddaru i ddarparu ar gyfer cydymffurfio â'r weithdrefn y gellir ei gorfodi o dan y Cod. |
| **- peidio â datgelu manylion mewn perthynas ag ymchwiliad o'r fath ac eithrio pan fydd wedi'i awdurdodi gan y gyfraith i wneud hynny, neu gan Gomisiynydd Safonau'r Senedd neu awdurdod ymchwilio arall;** | Dim testun cyfatebol | Ychwanegwyd rheol at y Cod wedi'i diweddaru i adlewyrchu darpariaethau yn y weithdrefn ynghylch preifatrwydd ymchwiliadau. |
| **- peidio â lobïo aelod o Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Senedd mewn ffordd y cynllunnir neu y bwriedir iddi ddylanwadu'n amhriodol ar ei ystyriaeth ynghylch p'un a dorrwyd y Cod Ymddygiad, neu mewn perthynas â gosod cosb; a** | **16. Ni fydd unrhyw Aelod yn lobïo aelod o'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn ffordd y cynllunnir neu y bwriedir iddi ddylanwadu arno/arni pan fydd yn ystyried cwyn ynghylch torri unrhyw un o'r materion a nodir yn Rheolau Sefydlog 22.2(i).** | |

| | | |
|---|---|---|
| **- pheidio â cheisio dylanwadu nac annog, unigolyn sy'n gwneud cwyn mewn ymchwiliad i dynnu'n ôl neu newid ei gŵyn, neu unrhyw dyst neu berson arall sy'n cymryd rhan mewn cwyn i dynnu'n ôl neu newid ei dystiolaeth.** | Dim testun cyfatebol | Mae'r Rheol hon wedi'i chynnwys i ddarparu eglurder y byddai gweithredoedd o'r fath yn torri'r Cod. Mae'n gysylltiedig â Rheol 14. |
| 12. **Rhaid i aelodau beidio â chamliwio unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw gŵyn y mae wedi'i hystyried.** | **17. Ni ddylai unrhyw Aelod gamliwio unrhyw argymhelliad a wneir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas ag unrhyw gŵyn y mae wedi'i hystyried o dan Weithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.** | |
| 13. **Rhaid i aelodau beidio â gwneud cwynion gwamal, blinderus neu amlwg heb sail i Gomisiynydd Safonau'r Senedd.** | Dim testun cyfatebol | Mae'r rheol hon yn adlewyrchu testun tebyg a ddefnyddir yn y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Rydym yn bwriadu y bydd canllawiau i gyd-fynd â'r Cod wedi'i ddiweddaru yn nodi y gall cwynion sy'n cael eu cymell yn bennaf at ddibenion budd gwleidyddol neu bersonol gael eu nodi fel gwamal, blinderus neu ddi-sail. |
| 14. **Rhaid i aelodau gymryd camau rhesymol i sicrhau bod eu staff, gan weithredu ar eu rhan, yn gyfarwydd â darpariaethau'r Rhan hon o'r Cod ac yn cadw atynt.** | Dim testun cyfatebol | Mae'r Rheol hon wedi'i chynnwys i ddarparu eglurder y byddai methu â chymryd camau o'r fath yn torri'r Cod. Mae'n gysylltiedig â Rheol 11. |
| **Dim testun cyfatebol** | **18. Bydd unrhyw gyhuddiadau o beidio â chydymffurfio â'r Cod yn dilyn y broses a amlinellir yng Ngweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad, fel y'i cymeradwywyd gan Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad Cenedlaethol.** | Rydym yn bwriadu i destun tebyg gael ei nodi mewn canllawiau i gyd-fynd â'r Cod wedi'i ddiweddaru, Rheolau Sefydlog perthnasol, a'r weithdrefn gwynion (a'r polisi Urddas a Pharch, pe bai'n parhau i fod yn berthnasol i'r Aelodau). |

| | | |
|---|---|---|
| **Dim testun cyfatebol** | **19. Mae gwybodaeth am rôl y Comisiynydd Safonau, gan gynnwys manylion cyswllt ar gael ar wefan y Cynulliad neu o swyddfa neu wefan y Comisiynydd.** | Rydym yn bwriadu nodi testun tebyg yn y canllawiau i gyd-fynd â'r Cod wedi'i ddiweddaru. |